*This document is available in English.* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys – Ymateb i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd a gweithgareddau’r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys (ECR) wrth ymgynghori’r â’r cyhoedd a staff.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Ers i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gomisiynu Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys ym mis Medi 2021, mae gwaith caled wedi’i wneud a’r canfyddiadau wedi’u cyflwyno i'r Gweithgor Darpariaeth Frys dan arweiniad Aelodau. Mae’r gweithgor wedi cyfarfod bum gwaith rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mehefin 2023. Bu’r grŵp yn canolbwyntio ar yr opsiynau o ran model darparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau presennol a gallu ymateb i risgiau gweithredol yn y dyfodol.

3. Ar 21 Gorffennaf 2023, cychwynnodd yr Awdurdod ei ymgynghoriad cyhoeddus ar y tri opsiwn a oedd wedi’u datblygu gan y Gweithgor Darpariaeth Frys, yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 17 Gorffennaf 2023.

4. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru’r Aelodau am y broses ymgynghori a'r gweithgareddau a gynhaliwyd ar y pwynt hanner ffordd. Mae hefyd yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd hyd yma gan staff, y cyhoedd a chyrff cynrychioliadol.

**ARGYMHELLIAD**

5. Argymhellir bod yr Aelodau’n:

    i) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**CEFNDIR**

6. Ym mis Ebrill 2023, ymgysylltodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) y Sefydliad Ymgynghori (tCI), sef sefydliad dielw sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n hybu ymgynghori o ansawdd uchel â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maen nhw wedi cael eu defnyddio gan lawer o Wasanaethau Tân ac Achub yn y DU gan gynnwys y Canolbarth a Gorllewin Cymru.

7. Mae'r Sefydliad yn darparu cyngor, arweiniad ac adolygiad cymheiriaid cymwys i baratoi sefydliadau ar gyfer parodrwydd ymgynghori a mabwysiadu arferion gorau yn unol â Siarter Ymgynghori. Pan fydd yn fodlon bod arferion gorau ar waith, bydd tCI yn cyhoeddi tystysgrif parodrwydd i ymgynghori cyn cynnal yr ymgynghoriad llawn i ddangos bod yr ymgynghoriad yn cael ei ddarparu yn unol â'r safon ofynnol.

8. Mae'r gweithgareddau arferion gorau cyn ymgynghori yn cynnwys gwrando ar farn pobl drwy grwpiau ffocws a gweithdai. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cael dadansoddiad o bwy allai gael eu heffeithio ac i ba raddau, i sicrhau bod y dulliau cywir o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried cyn ymgynghori'n llawn.

9. Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023, cymeradwyodd yr Awdurdod y byddai'n dechrau ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi 2023 ar yr opsiynau diwygiedig isod:

   - **Opsiwn 1** Byddai hwn yn golygu y byddai'r 12 swydd diffoddwr tân gwledig a'r 28 swydd diffoddwr tân amser cyflawn yng ngorsaf y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn cael eu symud i'r tair gorsaf staff dydd newydd. Byddai'r ddarpariaeth ar gyfer y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i fodel criw dydd tebyg i'r model sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Bydd hyn yn parhau i fod yn ychwanegol at y diffoddwyr tân System Dyletswydd Rhan Amser (RDS) presennol sy'n criwio'r ail injan dân yn y gorsafoedd hyn.
   - **Opsiwn 2** Model amgen sy'n darparu gwell darpariaeth frys drwy gyflwyno tair gorsaf staff dydd newydd, ond sydd hefyd yn gwireddu arbedion o £1.1 miliwn tuag at y cynnydd yng nghyllideb 2024/25, a amcangyfrifir ar hyn o bryd i fod yn £6 miliwn, gan gyfyngu'r cynnydd blwyddyn i flwyddyn felly i £4.9 miliwn. Mae'r opsiwn hwn yn newid y model criwio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fodel staff dydd, sy'n gadael y gwasanaeth dros nos i'w ddarparu gan ddiffoddwyr tân RDS yn unig ac yn tynnu'r trydydd peiriant tân o Wrecsam. Mae hyn i gyd yn arwain at ostyngiad o 22 swydd diffoddwr tân amser cyflawn.

- **Opsiwn 3** Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd ag opsiwn 2, ond dim ond dwy orsaf staff dydd fydd yn cael eu cyflwyno ac mae'n cynnwys cau 5 gorsaf dân System RDS. Mae hyn yn ostyngiad o 36 swydd diffoddwr tân amser cyflawn a 38 swydd diffoddwr tân RDS gan wireddu arbedion o £2.4 miliwn a chyfyngu'r cynnydd o ran costau blwyddyn i flwyddyn felly i £3.6 miliwn.

**GWYBODAETH**

10. Ar 19 Gorffennaf 2023, dyfarnodd tCI ei 'Dystysgrif Parodrwydd i Ymgynghori' i'r Gwasanaeth.

11. Er mwyn sicrhau bod yr holl dystiolaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei dadansoddi a'i hadrodd yn gywir, mae'r Gwasanaeth wedi ymgysylltu ymgynghorydd ymchwil. Byddant yn darparu diweddariadau wythnosol, crynodeb ar y pwynt hanner ffordd ac adroddiad ymgynghori llawn i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2023.

12. Ar 14 Awst darparodd tCI y cam sicrwydd ansawdd cyntaf fel rhan o ymgynghoriad ECR y Gwasanaeth yn erbyn eu fframwaith sicrwydd. Mae'r ymgynghoriad ar y trywydd iawn i gael statws 'arfer da' yn erbyn y fframwaith.

13. Roedd y broses sicrhau ansawdd yn mesur yr ymgynghoriad yn erbyn y pedwar ymyriad sicrwydd cyntaf; cyn-ymgynghori, cwmpasu a llywodraethu, cynllunio prosiectau a dogfennaeth.

14. Dyma grynodeb o weithgareddau ac ymatebion yr ymgynghoriad ar y pwynt hanner ffordd, ar 31 Awst 2023:

    i) Ymgynghori â staff yn ystod ymweliadau gorsafoedd tân, seminar rheolwyr canol, pum cyfarfod rheolwyr goruchwylio, sesiynau briffio tîm a gwylfa gan swyddogion cefnogi gorsaf a rheolwyr canol a rhaglen o ymweliadau gorsaf gan y Prif Swyddog.

    ii) Cynhaliwyd saith digwyddiad ymgysylltu cymunedol dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog ag Aelodau'r Awdurdod yn bresennol yn rhai ohonynt ledled Gogledd Cymru. Bwriedir cynnal 10 arall dros weddill yr ymgynghoriad (15 wyneb yn wyneb a dau ar-lein).

    iii) Ymgysylltu â Chynghorwyr Gogledd Cymru, Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU.

    iv) Presenoldeb yn y Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt, yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, yn Sioe Môn ar Faes Sioe Môn, yn Sioe Dinbych a'r Fflint yn Ninbych ac yn Sioe Meirionnydd yn Harlech.

v) Sylw yn y cyfryngau, ar y teledu, yn y papurau newydd ac ar y radio. Negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth yn cael eu rhannu ar bob platfform, gan ysgogi negeseuon cyfryngau cymdeithasol â thâl trwy Facebook.

vi) Digwyddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) yn cael eu cynnal gydag Unique Transgender Deeside, Canolfan Merched Gogledd Cymru a Dementia Support. Mae pum digwyddiad ymgynghori ED&I arall wedi'u trefnu.

vii) Hyd yn hyn rydym wedi derbyn 817 o ymatebion arlein i'n holiadur ymgynghori, sy'n llawer mwy nag unrhyw ymateb blaenorol i ymgynghoriad GTAGC a gohebiaeth gan randdeiliaid amrywiol.

viii) Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi derbyn dau opsiwn arall gan Undeb y Brigadau Tân (FBU), a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

15. Mae'r Gwasanaeth yn parhau â'i weithgareddau ymgynghori, gydag adolygiad ar y pwynt hanner ffordd gan tCI wedi'i drefnu ar gyfer 7 Medi 2023 lle byddant yn darparu rhagor o sicrwydd ansawdd ac unrhyw argymhellion i gefnogi wythnosau olaf ymgynghoriad yr ECR, hyd at ei gasgliad ar 22 Medi 2023.

16. Bydd yr adroddiad ymgynghori drafft yn cael ei gyflwyno i Weithgor ECR yr Awdurdod Tân ar 5 Hydref, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod llawn ar 16 Hydref 2023.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Rhaid i'r ymgynghoriad fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cyllideb** | Mae goblygiadau'r gyllideb ymgynghori wedi cael cyhoeddusrwydd yng nghwestiynau cyffredin yr ymgynghoriad ac wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllideb, Monitro a Chaffael. |
| **Cyfreithiol** | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth frys. Mae ymgynghoriad yr ECR a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaethau yn eu dilyn fel yr argymhellwyd gan y Sefydliad Ymgynghori yn cefnogi'r Awdurdod i fodloni'r gofynion hyn. |
| **Staffio** | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychiadol yn ystod y cam cyn-ymgynghori ac mae hyn yn parhau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau yr ymgynghorir â nhw amdanynt, ystyrir sut bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi creu amserlen o ddigwyddiadau ymgysylltu â grwpiau ED&I drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r arfer gorau y mae'r Gwasanaeth yn ei ddilyn a sicrwydd ansawdd yr ymgynghoriad gan y Sefydliad Ymgynghori yn sicrhau ffocws ar ofynion yr Awdurdod yn y maes hwn. |
| **Risgiau** | Mae'r ECR a'i ymgynghoriad yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys ac ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |